

---

## Allgáu Digidol

Adolygiad o ymchwil Ofcom i allgáu digidol ymysg  
oedolion yn y DU

---

# Cynnwys

---

## Adran

1. Crynodeb gweithredol	1
2. Cyflwyniad	2

# 1. Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o ymchwil hanesyddol Ofcom ar allgáu digidol ac effeithiau mwy diweddar y pandemig Covid-19, y rhai cadarnhaol a'r rhai negyddol.

Mae'n dangos bod nifer yr oedolion yn y DU na allant ddefnyddio'r rhyngwrwyd wedi gostwng yn gyson yn y blynyddoedd cyn y pandemig, a bod y pandemig wedi gwneud pobl yn fwy dibynnol ar fynediad i'r rhyngwrwyd nag erioed o'r blaen: mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos mai **6% ar hyn o bryd yw nifer yr aelwydydd nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwrwyd gartref.**

Fodd bynnag, gwyddom o'n hymchwil **nad mynediad ar-lein mo'r unig ffactor mewn allgáu digidol.** Mae hyder wrth lywio'r byd ar-lein a gwybod sut i gadw'n ddiogel ar-lein yn rhagofynion ar gyfer elwa'n llawn o'r rhyngwrwyd.

At hynny, mae ein hymchwil yn awgrymu, wrth i gyfran y bobl heb fynediad i'r rhyngwrwyd ostwng, fod **effeithiau negyddol aros oddi ar-lein yn mynd yn fwy aciwt**, wrth i nifer cynyddol o wasanaethau a rhwydweithiau cymorth fynd yn ddigidol yn unig.

Er bod llawer o waith Ofcom yn canolbwyntio ar helpu defnyddwyr i fynd ar-lein a llywio'r byd digidol, rydym hefyd yn cydnabod bod yna **rhai defnyddwyr na fydd mynediad digidol byth yn flaenoriaeth** iddynt, boed hynny o ganlyniad i ddiffyg diddordeb, cyflwr cyfyngol, neu fod yn rhan o genhedlaeth hŷn.

Felly, mae allgáu digidol yn **her i fynd i'r afael â hi mewn tair ffordd**: cefnogi'r rhai sydd eisiau mynd ar-lein; darparu sgiliau digidol hanfodol i ddefnyddwyr llai hyderus; a sicrhau nad yw'r rhai sy'n aros oddi ar-lein yn cael eu gadael ar ôl.

## Pwyntiau ac ystadegau allweddol

- Nid oedd gan 6% o aelwydydd fynediad i'r rhyngwrwyd gartref ym mis Rhagfyr 2021.
- Roedd y rhai a oedd mewn mwy o berygl o gael eu hallgáu'n ddigidol yn cynnwys dinasyddion hŷn; y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ariannol; y rhai nad ydynt yn gweithio; pobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain; a phobl yr effeithir arnynt gan gyflwr cyfyngol e.e. nam ar y clyw neu'r golwg.
- Mae dewis defnyddwyr, materion cost, a diffyg sgiliau neu hyder i gyd yn ffactorau sy'n cyfrannu at allgáu digidol.
- Galluogwyd rhai oedolion i ennill sgiliau digidol newydd a mwynhau manteision bod ar-lein o ganlyniad i'r pandemig Covid-19, ond i eraill mae'r gagendor digidol wedi ehangu wrth i nifer cynyddol o weithgareddau a gwasanaethau bob dydd symud ar-lein.

Crynodeb lefel uchel wedi'i symleiddio yw'r trosolwg hwn.

## 2. Cyflwyniad

### Cefndir

Diben yr adolygiad hwn yw rhoi trosolwg o ganfyddiadau ymchwil Ofcom ar bwnc allgáu digidol ymysg oedolion yn y DU. Ers blynyddoedd lawer mae Ofcom wedi cyflawni cyfoeth o ymchwil i agweddau ar allgáu digidol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r rhai y mae'n effeithio arnynt, a'r heriau y maent yn eu hwynebu. Mae'r adolygiad canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol, gan edrych ar sut rydym yn diffinio allgáu digidol: faint o oedolion yn y DU sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol; pa grwpiau poblogaeth sy'n fwy tebygol yn ystadegol o gael eu heffeithio a'r rhesymau y tu ôl i hyn; a sut mae Covid-19 wedi effeithio ar allgáu digidol yn y DU.

### Cwmpas yr adolygiad a'r dogfennau a ddefnyddiwyd

Mae'r adolygiad hwn yn amlinellu'r ffynonellau data y mae Ofcom yn eu defnyddio i ymchwilio i allgáu digidol a'i ddeall. Cyfeirir drwyddi draw at nifer o ffynonellau allweddol: darperir disgrifiad byr o'u tarddiad a'u methodoleg isod.

#### Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau (2021)

Mae astudiaethau Tracio Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau yn darparu tystiolaeth feintiol o ddefnydd o'r cyfryngau, agweddau atynt a dealltwriaeth ohonynt. O'r ymchwil ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a gynhaliwyd ar ddiwedd 2021, gellir dod o hyd i ddata sy'n ymwneud ag allgáu digidol yn yr arolwg Oedolion craidd, a ofynnodd i'r rhai sy'n defnyddio'r rhyngwrwyd a'r rhai nad ydynt am berchnogaeth ar ddyfeisiau a'r defnydd ohonynt; hyder ar-lein; ymwybyddiaeth o gyllid; ac agweddau tuag at ddefnyddio ffonau clyfar. Ers 2020 mae'r traciwr wedi defnyddio cyfuniad o fethodoleg ar-lein a thrwy'r post oherwydd Covid-19. Cynhaliwyd cyfweiliad arolwg omnibws â chymorth cyfrifiadur dros y ffôn (CATI) hefyd, gyda'r nod penodol o bennu mynychder mynediad i'r rhyngwrwyd a darganfod mwy am rwystrau i fynediad, a'r rhesymau pam mae rhai oedolion yn dewis aros oddi ar-lein.

#### Traciwr Technoleg (2021)

Mae Traciwr Technoleg Ofcom yn rhoi dealltwriaeth i ni o berchnogaeth a defnydd o wahanol dechnolegau ym marchnadoedd cyfathrebu'r DU (telathrebu sefydlog a symudol, y rhyngwrwyd, teledu amlsianel, gwasanaethau ar-alw, a radio/sain) ymysg pobl 16 oed a hŷn. Mae'n un o'n harolygon hwyaf ac yn draddodiadol mae wedi'i gynnal wyneb yn wyneb yn flynyddol; fodd bynnag, o ganlyniad i'r pandemig Covid-19 roedd angen defnyddio methodoleg ar-lein a phost dulliau cymysg yn 2021.

#### Arolwg Defnyddio Gwasanaethau Cyfathrebu (2020)

Mae'r Arolwg Defnyddio Gwasanaethau Cyfathrebu yn edrych ar fynediad at ddyfeisiau a gwasanaethau cyfathrebu, a'r defnydd ohonynt, ymysg pobl â chyflyrau sy'n effeithio neu'n cyfyngu ar eu defnydd o wasanaethau cyfathrebu. Gan ddefnyddio'r data o'r arolwg hwn, dadansodwyd y

## **Allgáu Digidol: adolygiad o ymchwil Ofcom i allgáu digidol ymysg oedolion yn y DU**

tebygolrwydd o allgáu digidol o ganlyniad i nifer o wahanol nodweddion, gan gynnwys oedran, byw ar eich pen eich hun, cyflwr sy'n cyfyngu neu'n amharu ar y defnydd o wasanaethau cyfathrebu, bod yn fregus yn ariannol, a meddu ar fwy nag un o'r nodweddion hyn. Cyflawnwyd y dadansoddiad hwn ychydig cyn dechrau'r pandemig, gan roi cyd-destun i ni ar allgáu digidol cyn dechrau Covid-19.

### **Traciwr Fforddadwyedd Cyfathrebu (Mehefin 2020 ymlaen)**

Roedd canfyddiadau ymchwil gan y Traciwr Fforddadwyedd Cyfathrebu yn seiliedig ar gyfweiliadau ffôn a wnaed o fis Mehefin 2020 ymlaen gyda thua 1,000 o aelwydydd yn y DU; yn wreiddiol cyflawnwyd y cyfweiliadau hyn yn fisol, gan symud i ddwywaith y mis o fis Ebrill 2021. Mae'r ymchwil yn canolbwyntio ar faterion fforddadwyedd y gallai defnyddwyr gwasanaethau cyfathrebu fod yn eu hwynebu ac yn gofyn am unrhyw gamau yr oeddent wedi'u cymryd i'w helpu i fforddio gwasanaethau cyfathrebu yn y mis cyn y cyfweiliad.

### **Bywydau Cyfryngau Oedolion (2021)**

Mae ymchwil Bywydau Cyfryngau Oedolion Ofcom yn brosiect ansoddol, hydredol, ethnograffaid a seiliedig ar fideo sydd wedi parhau ers 2005. Mae'r ymchwil wedi dilyn yr un (mor bell ag sy'n bosib) 20 o gyfranogwyr dros amser, gan gyfweled â nhw gartref i ddeall eu perthynas â'r cyfryngau digidol. Yn 2021, cynhaliwyd cyfweiliadau 2021 munud ar-lein dros Zoom.

### **Deall effaith ariannol Covid-19 (2020-2021)**

Dilynodd yr ymchwil ansoddol hon 25 o aelwydydd ym Mhrydain o fis Mai 2020, er mwyn deall hyder defnyddwyr bob dydd yng nghyd-destun Covid-19 ac i archwilio effeithiau Covid ar eu bywydau ariannol. Ym mis Ionawr 2021, rhoddwyd hwb i'r sampl trwy gynnwys pum aelwyd ychwanegol yr oedd y pandemig wedi effeithio'n negyddol arnynt o safbwynt ariannol. Roedd cyfanswm o chwe thon o waith maes, pob un ohonynt yn cynnwys tasg ar-lein, cwestiynau yn null arolwg i fonitro newid dros amser, a galwad fideo 60 munud gydag ymchwilydd.

### **Cydnherthedd digidol a bod yn agored i niwed yn ystod y pandemig (ymchwil CCP, 2021)**

Nod yr ymchwil hon oedd archwilio rôl cysylltedd digidol yn ystod y pandemig a'r effeithiau yn ystod y cyfnod hwn o gael, neu beidio â chael, mynediad at y cysylltedd digidol gofynnol, neu'r sgiliau i'w ddefnyddio. Cwblhawyd rhaglen o 60 o gyfweiliadau manwl ansoddol rhwng 10 Chwefror a 5 Mawrth 2021. Ffocws yr ymchwil oedd pobl yr oeddent eisiau defnyddio'r rhyngwyrdd yn wahanol yn ystod y pandemig, neu a oedd wedi ceisio gwneud hyn. Roedd yn targedu'n bennaf y rhai a oedd wedi cael anawsterau wrth gyflawni'r nodau ar-lein hyn, ond roedd hefyd yn cynnwys pobl heb y fath broblemau. O fewn y paramedrau hyn, roedd y sampl yn cynnwys amrywiaeth o gynulleidfaoedd gan gynnwys pobl hŷn, pobl sy'n byw ar incwm isel, pobl ag anabledau, microfusnesau, pobl sy'n byw yn y gwledydd a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn ogystal â rhai trefol.